# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 24 Gorffennaf 2024

**Yn bresennol (yn bersonol)**
Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd C George, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, a'r Cynghorydd M Wiggins.

**Yn bresennol (o bell)**
Cynghorydd SL Hancock MBE, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd B Price, Cynghorydd A Tinley, Cynghorydd V Thomas a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol:**
Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Lynda Jones (BAAB Architects), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Gary Meopham (Swyddog Ystadau), Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu) a Mair Thomas (Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth).

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell
10.00am – 12:00; 12:10pm – 12:50pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Morgan a Dr R Plummer.

**2. Datgan Buddiannau**
Gwnaeth y Cynghorwyr M Wiggins a V Thomas ill dau ddatganiad personol mewn perthynas ag adroddiad 28/24, Y Bwriad i Ddynodi Cei Cresswell yn Ardal Gadwraeth.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2024 (Cyfarfod Cyffredin a Chyfarfod Blynyddol Cyffredinol yr APC) i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Yng nghofnodion y Cyfarfod Cyffredin, dywedwyd bod amser cychwyn y cyfarfod (10:30am) ac amser yr egwyl (12:00pm-12:10pm) wedi'u cofnodi'n anghywir.

Dywedodd yr Aelodau nad oedd geiriad Cofnod 7 yn amlygu yn ddigonol pa mor siomedig oeddent â'r adroddiad ac nad oedd yr adroddiad wedi crybwyll y drefn ragorol sydd gan yr Awdurdod o sefydlu a hyfforddi

Aelodau, a llwyddiant yr Awdurdod i ennill Siarter Uwch am y gwasanaeth Cynorthwyo a Datblygu Aelodau.

Ar gynnig Dr R Heath-Davies, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, **penderfynwyd** cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2024 (Cyffredin a Blynyddol Cyffredinol) a'u llofnodi drwy gynnwys y diwygiadau uchod.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Cafwyd diweddariad ar yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd gan y Prif Weithredwr a awgrymodd y byddai rhagor o wybodaeth am yr amseru ar gael erbyn cyfarfod nesaf yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod eitem 958 wedi'i chwblhau ers cyhoeddi'r Log Gweithredu.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd bod newid sylweddol wedi bod yn y dirwedd wleidyddol yng Nghyngor Sir Penfro. O ganlyniad i'r newidiadau yn y cydbwysedd gwleidyddol, cyhoeddwyd bod y Cynghorydd Alderman wedi colli ei sedd ar yr Awdurdod, a diolchodd y Cadeirydd iddo am ei gyfraniadau i'r Awdurdod dros y blynyddoedd. Hefyd croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd A Tinley oedd wedi ymuno â'r Awdurdod.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau canlynol;

- Angladd mab aelod o staff fu farw mor drychinebus o drist mewn damwain ffordd.
- Arddangosfa yn Oriel y Parc oedd yn dathlu 200 mlynedd mudiad yr RNLI.
- Arddangosfa Gymunedol Prosiect Cleddau 'Fy Afon I' oedd yn annog pobl ifanc i ddysgu pa mor bwysig yw gwarchod Afon Cleddau.
- Cyfarfod Cadeiryddion Bwrdd Llywodraeth Cymru.
- Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Gwasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi i ddathlu 200 mlynedd mudiad yr RNLI.
- Sioe Frenhinol Cymru lle bu hithau a Phrif Weithredwr yr Awdurdod yn mynychu Cinio'r Llywydd a'r Gystadleuaeth Cneifio Traddodiadol â Gwellau yr oedd Parciau Cenedlaethol Cymru yn ei noddi.
- Cyfarfod â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i drafod adroddiad blynyddol drafft 2024/25.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**
Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau er ystyriaeth/ gwybodaeth:

(i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 05/06/2024, 19/06/2024 ac ar 08/07/2024;
Manteisiodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar y cyfle i amlygu pa mor bwysig yw bod yr Aelodau yn mynychu'r Ymweliadau Safle a drefnir.

(ii) Y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 01/05/2024;
Awgrymwyd y dylid sefydlu Log Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Safonau.

(iii) Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 15/05/2024;
(iv) Y Pwyllgor Ieuenctid a gynhaliwyd ar 11/06/2024 ac ar 09/07/2024.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/ derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**7. Lleoedd Gwag ar Bwyllgorau**
Cyflwynwyd y mater Lleoedd Gwag ar Bwyllgorau fel eitem atodol ar yr agenda yn dilyn ymadawiad y Cynghorydd S Alderman. Fodd bynnag yn ôl barn a doethineb y Cadeirydd, ystyriwyd y mater yr adeg hon.

Yn dilyn trafodaeth, **penderfynwyd** llenwi'r lleoedd gwag gan yr Aelodau a ganlyn:

a) Y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol: y **Cynghorydd A Tinley.**
b) Y Pwyllgor Grantiau: y **Cynghorydd A Tinley.**
c) Panel Penodi y Pwyllgor Safonau: y **Cynghorydd A Tinley.**
d) Cyd-gyngor Cymru: y **Cynghorydd M Bowen.**
e) Is-grŵp Strategaeth Ynni Ranbarthol Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru: **Dr R Heath-Davies**
f) Pwyllgor Ymgynghorol Porthladd Aberdaugleddau: **Dr M Havard**

**7. Datganiad Cyfrifon Drafft 2023/24**
Cyflwynodd y Prif Weithredwr y Datganiad Cyfrifon Drafft am y flwyddyn oedd yn diweddu ar 31 Mawrth 2024 gan wahodd sylwadau, ac amlinellodd y pwyntiau a'r ffigurau allweddol i'r Aelodau. Eglurodd y Prif Weithredwr y broses o awdurdodi'r cyfrifon, a thynnodd sylw at yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Ychwanegwyd, er gwaethaf hyn, bod Cyfrifon 2023/24 wedi diweddu mewn sefyllfa gref.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r Aelodau at y tabl cryno o gyfanswm y refeniw a'r gwariant, a chadarnhaodd bod cyllid ychwanegol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r diffyg ariannol wedi'i gynnwys, am y tro cyntaf, yn ffigurau'r Grant Parc Cenedlaethol. Mewn ymateb, awgrymodd yr Aelodau y dylid cynnwys datganiad o dan y tabl yn egluro bod y cyllid hwn wedi'i gynnwys yn ffigwr y Grant Parc Cenedlaethol.

Nodwyd bod y cyfrifon yn cynnwys adran ar 'Ragdybiaethau a wnaed am y dyfodol, a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd a amcangyfrifir', a holodd Aelod pam nad oedd y costau sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon. Ymatebodd y Prif Weithredwr, er bod lwfansau wedi'u gwneud, y rhagwelwyd y byddai'r cyflogau yn parhau'n gyson â'r ffigurau presennol yn dilyn yr adolygiad. Er gwaethaf hyn, rhaid oedd cydnabod bod yr adolygiad Cyflogau a Graddfeydd yn peri risg bosibl i'r Awdurdod, a chytunodd y Prif Weithredwr i gynnwys datganiad i'r perwyl hwnnw.

**Nodwyd.**

**8. Adroddiad ar Fonitro'r Fframwaith Partneriaeth 2023/24**

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth a gyflwynodd Adroddiad blynyddol newydd ar Fonitro'r Fframwaith Partneriaeth, oedd yn rhoi trosolwg o'r partneriaethau strategol allweddol oedd yn cefnogi'r Awdurdod i gyflawni ei flaenoriaethau strategol ehangach.

Nodwyd bod gan bob Partneriaeth sgôr Coch Ambr Gwyrdd, ac awgrymodd Aelod y dylid cynnwys datganiad yng nghyflwyniad yr adroddiad i egluro pa elfennau o bartneriaeth a ystyriwyd gan y sgôr Coch Ambr Gwyrdd. Cytunodd y Swyddog i gynnwys y datganiad y gofynnwyd amdano yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Pwysleisiodd Aelod pa mor bwysig yw cynnal perthynas yr Awdurdod â'r Cynghorau Tref a Chymuned lleol, a holodd a oedd gan yr Awdurdod gynlluniau i wneud y partneriaethau hyn yn fwy ffurfiol yn y dyfodol. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod, cyn y Pandemig, wedi trefnu Seminar ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned, ac y byddai'n ystyried cynnal mwy o'r seminarau hyn yn y dyfodol. Ychwanegwyd y byddai cyfleoedd eraill o gryfhau'r partneriaethau hyn yn cael eu harchwilio.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â diben yr adroddiad a gwerth y ddogfen o ran cynorthwyo'r Awdurdod i ddeall gwerth pob partneriaeth, asesu risg, a blaenoriaethu partneriaid yn y dyfodol pe byddai angen. Cytunwyd bod yr

adroddiad yn pwysleisio bod yr Awdurdod yn sefydliad bach oedd angen cymorth Partneriaid i gyflawni ei amcanion.

**Nodwyd.**

**9. Y Bwriad i Ddynodi Cei Creswell yn Ardal Gadwraeth**

Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu a Lynda Jones o BAAB Architects a gyflwynodd adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i drefnu ymgynghoriad cyhoeddus ar ddynodi Cei Creswell yn Ardal Gadwraeth.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth gefndir am yr ardal a'r ardaloedd cadwraeth yn fwy cyffredinol, map oedd yn dangos y ffin arfaethedig, a'r rhaglen arfaethedig ar gyfer yr ymgynghori. Eglurwyd y manteision o ddynodi Cei Creswell yn Ardal Gadwraeth, a hefyd amlinellwyd rhinweddau arbennig yr ardal a aseswyd fel rhan o'r broses.

Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw fygythiadau wedi'u clustnodi oedd yn golygu bod gofyn cael dynodiad. Ymatebodd y Swyddogion nad oedd unrhyw fygythiadau wedi'u clustnodi. Fodd bynnag, roedd gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol i glustnodi ardaloedd sydd angen gwarchodaeth ychwanegol fel mesur i atal unrhyw fygythiadau yn y dyfodol.

O ran y ffin arfaethedig, holodd yr Aelodau pam nad oedd ardal benodol o goetir wedi'i chynnwys o fewn y llinellau terfyn. Mewn ymateb, eglurwyd bod y coetir dan sylw eisoes yn elwa o warchodaeth Gorchymyn Gwarchod Coed, ond byddai'r sylw yn cael ei nodi a'i gymryd i ystyriaeth.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd V Thomas, **penderfynwyd**:

a) bod yr ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol a'r gwaith ymgysylltu yn mynd rhagddo o ran dynodi Cei Creswell yn Ardal Gadwraeth fel y nodir ar y map oedd ynghlwm yn Atodiad A;
b) bod Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth ar gyfer Cei Creswell yn cael ei ddrafftio.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 12:00pm a 12:05pm)

**10. Polisi'r Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau**

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a gyflwynodd adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i'r polisi newydd 'Polisi'r Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau'. Dywedwyd bod y polisi wedi ei ddatblygu i roi arweiniad i'r Swyddogion ar y modd o hyrwyddo ac

annog y defnydd o'r Iaith Gymraeg wrth hysbysebu a dyfarnu grantiau ar ran yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Bu’r Aelodau yn trafod ysbryd a naws y polisi, a chytunwyd bod angen aralleirio rhai brawddegau i bwysleisio bod angen polisi o'r math hwn ar yr Awdurdod i hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn hytrach na dim ond ymlynu at y Safonau Iaith. Nodwyd hyn gan y Swyddog.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chymhlethdod y polisi, a holodd Aelod a fyddai'n fwy priodol i'r Awdurdod gael polisi sy'n ystyried pob cais am grant fesul achos. Mewn ymateb, eglurodd y Prif Weithredwr bod fformat y polisi yn cydweddu â’r Tîm a’r Rhaglen Grantiau Bach sydd gan yr Awdurdod, ond cytunodd i adolygu’r sefyllfa ymhen 18 mis i sicrhau bod y polisi yn ddigonol.

Cyfeiriodd Aelod at rai rhannau o'r polisi lle defnyddiwyd geiriad mwy anffurfiol, ac awgrymwyd y dylid ail edrych ar yr ieithwedd. Nodwyd yr awgrym gan y Swyddog.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr R Heath-Davies, **penderfynwyd** cymeradwyo Polisi'r Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau a bod y polisi yn cael ei adolygu ymhen 18 mis.

**11. Prydles 'Bistro y Shed', y Lean-To, Tŷ Mawr**

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Ystadau a gyflwynodd adroddiad oedd yn rhoi manylion yr eiddo o'r enw 'Y Lean-To, Tŷ Mawr' oedd yn rhan o ystâd yr Awdurdod. Roedd cais wedi’i gyflwyno am ganiatâd i ymestyn yr adeilad gydag addasiadau cyfatebol yn cael eu gwneud i'r brydles. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth gefndir a’r cynlluniau arfaethedig ar gyfer yr eiddo.

Ar gynnig Mr GA Jones, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, **penderfynwyd** rhoi awdurdod dirprwyedig i’r Prif Weithredwr gwblhau a dogfennu prydles atodol gyda thenantiaid y Lean-To, Tŷ Mawr i ddarparu ar gyfer:

a) adeiladu to newydd dros y llefydd eistedd allanol yn unol â chaniatâd cynllunio NP/24/0151/FUL.
(b) rheoleiddio eu defnydd parhaus o'r llefydd eistedd allanol o fewn telerau’r brydles.
(c) cynyddu’r rhent o £7,500 y flwyddyn i £12,000 y flwyddyn.

**12. Eithrio’r Cyhoedd**

Nodwyd, wrth drafod yr adroddiad canlynol, y gellid rhannu gwybodaeth oedd yn fasnachol sensitif, ac felly gofynnwyd am eithrio’r cyhoedd o'r cyfarfod.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, **penderfynwyd** eithrio’r cyhoedd o’r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**13. Ymateb i Adroddiad Archwilio Cymru ar Lywodraethu**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn gofyn am gytundeb yr Aelodau i Ymateb yr Awdurdod fel Sefydliad i adroddiad Archwilio Cymru ar Lywodraethu’r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Eglurwyd bod Archwilio Cymru, yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd fis Mehefin 2024, wedi cyflwyno eu hadroddiad, ac mewn ymateb, roedd sawl Aelod wedi mynegi eu pryder a’u hanfodlonrwydd â’r canfyddiadau ac wedi gofyn am ddiwygio’r Ymateb Sefydliadol yn unol â hynny. Dywedodd y Prif Weithredwr bod hyn wedi bod yn anodd, a bod sylwadau'r Aelodau felly wedi'u hymgorffori mewn llythyr ymateb i amlinellu pryderon yr Awdurdod i Archwilio Cymru.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Bowen, **penderfynwyd** cytuno ar yr Ymateb Sefydliadol a’r llythyr gan y Cadeirydd at yr Archwilydd Cyffredinol, a bod y ddwy ddogfen yn cael eu cyflwyno i’r Archwilydd Cyffredinol gyda chais am i’r llythyr gael ei gynnwys fel atodiad i'r Ymateb Sefydliadol.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 11/09/2024 heb eu diwygio. |